

Teulu


(20221231)

P'nawn hoff, teuluol goffia yw dyfod
Dafydd, haleliwia!
Llais y De'n llawn 'wyllys da,
A'r teulu'n reit diwala!

(REE yn dod draw gyda D. sy'n perthyn!)

ArBenYGop

(20221229)




Muned yng nghwmni'r meini - o lanerch
Trelawnyd gweli!
O! hanes Coparleni,
Cynyrch llewyrch ger y lli.

Profiad cynrhyw a'i fywyd yn neges
Yr ogof a'r wyndud
Am wychliw awr y machlud,
Pau'r lleuad a lau a'u hud.

(Mynd i Drelawnyd i weld y gaer, a'r meini hirion gerllaw. Machlud hyfydd, a'r lleuad ag lau yn gwmni. Claddwyd pobl yno dros gyfnod o fil o flynyddoedd tua pum mil o flynyddoedd yn ol.)

DrwyFfydd

(20221228)




Duw â dyn ar hyd y daith yn rhanu
Cyfrinach Ei gampwaith;
Gweld golau dydd, ffydd fel ffaith,
Gwybod o sicrwydd gobaith.

(Gwylio Vanessa Lengies mewn crismÿsmwfi, a wedyn darganfod ei bod hi mewn ffilm indi o'r enw "the substance of things hoped for" (neu "sicrwydd gobaith", Hebraidd 11.1.) am ferch ifanc bechioig â sgifoffrenia; diawl o ffilm.)

Wedi'rFfair

(20221228)




Nadir oes yn ei dryswch - dwysogaeth
Try'n artaeth yw hyrtwch
Bywydau â drygau'n drwch:
Doed eiliad o dawlewch.

I'r bron nepell o'r afon af, i'r heddi
O lwybreiddio'n araf
At echel Moel Ty Uchaf
Yn y gwyllto, callo caf.

(Cael llyfr wrth K am feini hirion Prydain, a darganfod cyloch Moel Ty Uchel, nepell o Gwynyd. Gwrando ar gân pop ar y ffordd â llinell fel "Saith biliwn o bobl ddim yn gwybod beth ma' nhw'n 'neud".)

'SgidieD

(20221226)



'Sgidie Dyfan
Yn frown ac yn wya,
A'i got e'n wyrdd,
Rhaid ei thynu hi'n dÿn;
Het las
Â tractor ar ras,
A throwus â loris sydyn!

(I'w ganu i fersiwn *swing* o'r gân "Last Christmas" gan George Michael / Wham!)

IaithD

(20221225)

Hwyl yr oriau'n canmol *Rara* - dedwydd
Wên *dada a mama*;
Gwêl boi a'i *gocogia*
Fyd adwynig, Dolig da!

(D. yn cyfathrebu o ddirifri! *Rara* yw deinawr, a *Cocogia* yw coeden Nadolig, am rhesymau sy'n amlycach i D. nag i neb arall.)

FfyddGobaithCariad

(20221224-25)


Yng ngobaith drud byd Bwda - rhin uniawn
Gwŷr Nanak a Brama;
O Elohim fel A-la,
Nwyd heddwch i blant Adda.

Ein gorau byw i garu'n rhydd â ffydd
Try'n ffaiht drwy ymofyn
Gorau'n byw â Duw mewn dyn,
Awchu gwên rhyw fachgenyn.

(Gwylio Crismÿsmwfi, yn gorffen â'r gosodiad mai ffydd yw'r unig gysyniad sydd ar ôl er uno pobloedd y byd. A phrofi neges y Nadolig o'r newydd drwy lygaid D.)

RowndDre

(20221223)



Drych i fyd y doethion dri - llen â llun,
Llawenydd goleuni
Seren dlos, â'r nos â ni
A'i hoff naws, drwy ffenestri.

(Mynd i weld y ffenestri ar hyd Stryd Y Castell.)

RhedegYnYGwllaw

(20221223)

Rhaid ei estyn drwy'r distaw - goleuni,
Hud ell'r deheulaw;
Angyllion rhengau alaw,
Bugeiliaid syn pen bryn brow.

(Metaffor a hanner hwyrach am "Yr Arall", ond rwtsh hudolus.)

PenblwyddK

(20221222)

Dim brys, naws hapus, swper *tapas*, blas
Penblwydd ar y *skewer*;
Cwrw tap a *pizza pèr*
Yw cymun y *Beachcomber*.

(Mynd am swper ym Menllech i ddatthu ei phenblwydd yn 32 oed!)

LundiSoir

(20221222)

Hip hip i la Philipé - dyfal ffrind,
Vive le France ei chwre,
Un a'i ddawn troed cwith neu dde,
Mae bopeth ond Mbappe!

(Gan A. fel ymateb!)


EinMessiNi

Ar y cae, hwn ydyw'r cun o'r hili aur,
El Arwel, goruwchddyn!
Hen faestro'n llancio pob Llun
Yw'r amler, ygwir Emyln!

(A. yn ei hwyliau neithiwr, gêm ola'r flwyddyn.)

Grrrrr

(20221220)



I swper, nef llusernau - hwyl a hynt
Plantos a delweddau
Llewod, peunod yn eu pau;
Mwyn i'w gwyled mewn golau.

Edau gwenua'r gwddi-hw - a heddwch
Y bleiddiaid a cheir;
Breuddwydion aur synau'r sŵ
Yn eu golau yn galw.

(Gweld sŵ Caer o'r newydd drwy lygaid D.)

YSulCyn'Dolig

(20221219)

Cymun glas a gwyn y geni - cipio
Cwpan a choes twrci;
Oed pel-droed 'da'r doethion dri,
Cwyl gyfoes, moes a Mess!

(Dwiwnod i'w gofio 'ddoe, gwasanaeth Nadolig hyfydd yn y festr, cinio Nadolig i bawb wedyn yn y *Druids*, a feinaid Cwpan Peldroed Y Byd yn y prynhawn.)

YGwyn

(20221218)

Oed'r hirnych wedi'r oerni - fel hyn
Diffana ei wynt;
Bore'n llawn mallen i mi
Y dydd bu'r eira doddi.

(Yr eira'n dadlaith.)

YStreiciwr

(20221217)

Hurtwch Toriaidd artaith - heb lusern
Drwy uffern y diffaith
I wyneb nos heb obaith:
Gorfod yw gwrthod gwneud gwaith!

(Chwarae teg i'r streiciwr!)

JlPI

(20221217)

Nod ei heffaiht, gwella diffy - cad dwys
Mewn côt wen a menyg
Graenus, crefftus, ell'r cryg;
Fe haedda bod yn feddyg!!

(K wedi gorffen yr holl arholiadau a phroffion ac asesiadau dros 14 mlynedd o astudio. Mae bellach yn feddyg teulu go iawn!!)

60

(20221215)

Odlig am wers hirhoedledd - mae oedran
I'r meiriol fel agwedd;
A dyma'n nwyd, mynd mewn heddw
Ymlaen, ail drigain mlynedd!

(Wedi cyraedd oed yr addewid, o ran ymdeol o leiaf!)

NawsYNadolig

(20221214)

Heno'n hwyr, â'r byd yn oeri - taw hud
Deiôdau yn gloywi
Â gwawl gwyn Gwyl y Geni:
Ffisig Dolig L. E. D.

(Dodi'r goleuadau Nadolig tuallan i'r ty gydag E a T. J yn dechrau coginio *cukrow!* Mae'r Dolig yn dod!)

Whitney

(20221214)

Caraf fy Nuw,
Clywodd fy nghri,
A theimlo pob un llef;
Tra byddaf byw,
Pa drafferth ddaw,
Dynesaf ato ef.

(Whitney Houston yn canu gwaith Richard Smallwood. Ffeindwch y sistem sain orau sydd ganddo chi (neu prynwch un gwell), trawch e lan i ffwllblast, ac eisteddych am bum muned i wrando ar hwn: <https://youtu.be/Mr8SAkCjGjc>)

Paentio

(20221211)

Fy myd, cwr clyd y cerig clau - hen boen
Cwlybaniaeth mewn waliau;
Cymaws serch naws i'w fwynhau
Yw gwawl paent gwyngoch golau.

(Paentio yn GG.)

YGochen

(20221210)

Fel'na daw'r sonsetia o'r sach, yn dal
Swyn Dolig a'i faslach;
Eiliad nwyf y blodyn iach
A'i unig awch: tro'n gochach.

(Dod nol o Braha â phonsetia hyfydd yn aros amdanom ar ford y gegin!)

Paham?

(20221209)

Tonfedd leddf, tön y drônau - am ernest,
Marwnad du'r ffrwydriadau;
Gorthrwm y llwyth, adwyth iau
Oerig elor y golau.

(Yn Praha, lle mae llawer wedi ffoi o'r rhyfel, a darllen erthygl am lif o farddoniaeth newydd o'r Wcrain, â phobl yn celsio coelio'r anesoniadwy.)

ProsiacwPraze

(20221204-9)

Daw yr awr a daw yr eira! Am hwyl
Ymweld â *babicka*;
Ein heisiau 'di dyddiau da,
A'n bri cael mynd i *Braha*.

Iriad wrth hedfan dros erw - yw'n drud
Wydradau diweddw!
Tê, jin â dŵr, a chwrrw
'Di joio taith 'da Jet2!

Gan Nicolas â'i glogyn clau - gwên pur,
Cwin poeth a charolau;
Fe gawn brynrawn o fwynhau
Yn neidlo rhwng marchnadau!

Yn fy nych, *tralo'n* fana hynafol,
Cawn yfed a bwyt
Hin *svarèného vína*;
Eiliad melys *Ludmila*.

Rhau o glychau'r engyl glân, i greu ias
Yn groeso i'r baban;
Darlwnc ger y gadeirlan;
Blas â'r byd i gyd yn gân.

Rhed parêd y cangarŵ - mae encil
Y mwnwcn yn galw;
Crawc pelican, rhoch banw,
Slon a phanda a sebra'r sŵ.

O'r carnifal nol i Walla! - am hwyl
Ymweld â *babicka*;
Llu brofiadau, dyddiau da,
Ein bri oedd mynd i *Braha*.

(1+2: hedfan ar y 4ydd o Ragfyr. 3: dathlu dydd Sant Nicolas yn cerdedd strydoedd Praha â phobl yn dathlu Mikuláš, čerty ac andělý. 4: mynd i farchnad *Ludmila* ac wedyn i *Vyšehrad*. 5: mynd i'r farchnad yn y castell ger y gadeirlan, gwrandao ar glychau eglwys *Loreta*, ac ymweld â *Kampa*. 6: mynd â D. i'r sŵ.)

BroDur

(20221203)

Dysgu gorau'r oriau yw - a chyfle,
A choffaidd unigryw
Bo hanes dyn a benyw
Yn y byd, wrth ddysgu byw.

(A.E. yn ysgrifenu yn y Bedol am arwyddair Ysgol Bro Dur - yn cynnwys hen Ysgol Gyfun Ystalyfera - sef "Dysgu gorau, dysgu byw".)

YnYMart

(20221203)

Ar ol 'marfer daeth tro loan - a'r her,
Arwain Meibion Marchan;
Gwledd, ceinaf wledd o floeddian
Bodlondeb pur, gwŷr y gân!

(MM yn canu yn y mart meithiwr. Awryglych arbenig, agosatoch. Carolau â defaid yn brefu yn y cefndir. A'r côr yn ei hwyliau!)

2-1

(20221201)

Wrth geisio ciplo'r cwpan - heb os,
Aeth y bêl ddim allan!
Soe epig gan wŷr Siapan
Nos iau, â'u doniau ar dân,

(Siapan yn maeddu Sbaeni!)

YBigSmôc

(20221130)

Profiad yw mynd i Lundain - dwl a dwys,
Cwys yr estron cysain;
Crider a glythwydr fel glain
Coron rhaigrhithwyr cywraïn.

(Tridiau yn Llundain.)

CwpanYByd

(20221129)

Achwyn crin a chanu croch ac apêl
Y bêl yn creu boloch;
I'w ddilyn, oed o ddoloch:
Hel gwell, hel gwell bu'r wal goch.

(Poeni bod Cymru am gael crasfa go iawn heno.)

HsCanMlynedd

(20221125)

Oed o begynau'n hydawdd - oed o boen
Dibynnaeth ar forglawdd;
Oed diafol egniol nawdd
Sŵn tân sy'n newid hinsawdd.

(Ysgrifenu erthygl am effaiht newid hinsawdd ar ganwder stormydd morol. Hs yw'r symbol am uchder ton arwyddocaol.)

40+1

(20221120)

Medi maeth y Mo-di-mo rhydd awen
Cerd ddiwyd sy'n agor
Drws deugain oed i drysor
'Ddoe, a fory canu'r côr.

(Côr Rhuthun yn dathlu 40+1 neithiwr.)

YSied

(20221119)

Heulfa ger Alban Elfed - yw heulfa
Â chelfi a charped;
Drws sy'n cau, seiliau soled;
Da yw Sion am godi sied!

(S. yn adeiladu sied newydd i A.)

Llwgwy

(20221113)

Hel oed yr anweladwy i fodio'r
Angofedig fanwy;
Dôr i ddaer a môr a mwy
Lliw eigion ffrydiau'r Llwgwy.

(Cerdedd o Foelfre i Draeth Llwgwy gyda K, C & D.)

GerYlII

(20221112)

Rhith y loer ar draethell arian - a gem
Mewn gwyumon fel mordan
O gwrol uwch ger y lan:
Nosog gof, Ynys Cwylan.

(Mynd am dro cyn galw gyda K.)

Pyrth
(2022112)

Hynod byrth, fel gwrth i'r gwas wynebu
Cydnabod, cymdeithas
Is y nef â thref a thras,
Pyrth anwyli cwlm perthynas.

(E yn cwrdd â theulu Merthyr!)

Walydd
(20221110)

Gwawli y diawl ai golau dydd, ai dallu
Diwylliant, ai crefydd
I'n gwyllo'n rhywm, ond yn rhydd
O weled trwch y walydd.

(Walydd ym mhobman, i'n rhwystru ac i'n hamddiffyn.)

Rhydychen
(20221105)




Cytgan Rhydychen heno yw alaw
Teulu'n ymfalchio;
Miri'r cyri'n Jerico
A rhuddin mab'di graddio.

Clemau'n gymysg, dysg ar dân â duwiau
Ein deall ym mhobman;
Daw arlwy moes drwy wlaw mân,
A siôl dawn o'r Sheldonian.

(T. 'di graddio!)

UKMO
(20201031)



O'm bro â chwam a brig,
Amaethaf i'r Amwythig;
Daw acw enw'n eco,
Adlais o Gymry Llwydlo.
Llyn o geir â'u troelli'n gordd,
Heb anffawd hebïo Henffordd.
Rhanu gwên â Dyffryn Gwy
I'r hafanaidd Drefynwy;
Cynal y daith, canol dydd,
Dwyawr o'r Bont Newydd.
Wedyn jyst dilyn y don
I Fryste, i for Weston,
I winllan gwynt, gwlaw a chenllysg
Cewri hin, arwyr Caerwysg.

(Cyru lawr i Gaerwysg, Rhoi sgwrs yn y MetOffice 'fory.)

Diflastod
(20201031)

Sêr salwch oes yr isellid - hen oes
Un Noson amddifad
O lewyg Ole Leuad:
Argoel oer o farw gwlad!

(Actio - a chanu - gwych, ond am hanes digalon. Mynd i'r ddrama yn Theatr JA nos Sadwrn.)

Podzim
(20221029)

Fel aur yw penawdau'r ne' o gwnu
Yn gynar un bore
Er cwylod rhiciau'r hydre'
Â lleu'r gwywo'n lliwio'r lle.

(Dod nol o GG, â'r coed wirioneddol yn troi lliw. *Podzim* yw hydref yn Tseiege. Mae'n meddwl 'o dan (ddylanwadi) y gaeaf".)

TuDrawlWal
(20201028)

Ymgais, dyfais difahal - byw antur
O'th bentan a'th ardal;
O gyfod, dring â gofal,
Daw'r siawns am gip dros y wal.

(Pobl yn treulio bywyd mewn trwmwsg heb fentro croesi ffiniau ffisegol, cymdeithasol a diwyllianol.)

Ymollwng
(20201025)

Plymio o'n co' i fyw'r Duw da - afon ddfon
Ein hefn gynhaes;
Nef via negatifa
Yw Ei rodd hael: fe'n rhyddha.

(Darllen mai dim ond drwy "fwiadol-anghofio" neu "dad-ddysgu" syniadau a rhagrithiau ac ymollwng yn llwyr y down i ddealltwriaeth.)

ArWaelodTwllYTorïaid
(20221022)

Fel cryd, daeth pryd talu pris - dialedd
Eu diwedd mewn dewis;
Dyma'u hofn: â'r bar dim is
Na'r llawr, a'r baw rhydd Boris.

(Mae'r Torïaid bellach tuhwnt i watwar, a'r syniad bod y ffwl a'r celwyddgi Johnson yn meiddio ail-ymddangos yn dangos diffyg hyd yn oed llygedyn o foesoledb gan yr un ohonynt.)

Gwellhad
(20221020)

Rhaid awg dros droedigaeth - ar y cyd
Creu crud democratiath
Cyfranol gynrychiolaeth
Er cysoni'n gwerin gaeth.

(Trys wedi mynd. Roedd yn amlwg o'r dechrau nad oedd ganddi'r gallu. PR yw'r ffordd i wella pethau ar lefel "senedd gwledydd Prydain" yn Llundain.)

Cwypm
(20221016)

Obry syrthiodd o'i *hubris* - i lani'o'n
Ffolineb ei dewis;
Bwrw'r mur o daflu'r dis:
Moesau hyl'i ei *nemesis*.

(Matthew Parris yn Rhagfyr 2021 am Liz Truss : "There's nothing there".)

Drôn
(20221015)

I'r afael â chyfrifon lliw ardal
Er cynal amcanion;
A'i ddull, sefyll dros afon
Am ddata gwych, drych yw'r drôn!

(T. yn dysgu i hedfan!)

CreuGwell
(20221015)

Di-ddull yn ei gwyll gwallgo' - hwb a sail
B'asai of myfriol
Os troi cefn, creu trefn mewn tro
Yw dawn dwy law'n dylunio!

(“Thick Lizzie” yn mynd o ddrwg i waeth.)

Glasson
(20221013)



Egyr y dydd ger y don - cân llafar
Cynar, cof y ceinlon;
Wrth gerdded camlas Glasson:
Cynig awell unig llon.

(Yn y brifysgol am driadlau.)

Dialch
(20221011)

Tori ein difaterwch - nacau swm
Casineb a blerwch;
Tro'i blysiad beirniad a bwch
Yn gôr o ddiolchgarwch.

(Paratol sgwrs am ddiolchgarwch.)


TreisiauGwyrTrÿs
(20221008)

Gwagedd, llygredd fel y llyr - eu gwerthoedd
Yw eu gwarth, a'n gwewyr;
Chwip a hawl, di-hidwch pur,
Duw od yw duw'r Ceidwadwyr.

Anorfod, gwing eu tyrfeidd - gwall 'rol gwall
Di-ddeall, di-ddiwedd;
Hir oes, bois â moes y medd
Yn gwegian dan pwn gwagedd.

(Mae'r llywodraeth bresenol y Llundain y ffaidd.)

WarOffTheWorlds
(20221008)



Anochel, aer un achau yn nuwch
Cyfnewid amserau;
Hawdd cyflyru'r brodyr brau
Er bwydo Brwydr y Bydau.

Gwain i hanes yw genynnyn - pos hil,
Pwysau iau, a sbarun;
Penodiad hap-newidyn
Yw cread a difa dyn.

(Gwyllo Worofddwyldys ar Disniplÿs.)

YrHydref
(20221001)

Ger y waun, cwrdd â'r lliwiau'n llef - oerfel
Trawsfurfiodd fy nghartref;
Dolau'r niwl a dai o'r nef
Yn adrodd stori'r hydref.

(Y tywydd wedi troi.)

YrArail
(20221001)

Ei weddi o wahoddiad - oed awen
Er deall y cread
Can weinidog ysgogiaid;
Da yw byw â Duw yn dad.

(Yn dal i feddwl am lyfr John Bowker.)


EmperorCream
(20220925)



Nerth o lif y gwrthiol hufen yn ffin
Amddiffynol haenen;
Â gofal, ceulo'r talcen
Yn wal ymerawdol wen!

(Dodi paent sbesial "Emperor Cream" ar wal talcen y tŷ yn GG sy'n fod i greu haenen gwrrth-ddwr ond anadladwy! Cawn weld dros y gaeaf!)

Hedfan
(20220906-20)



Gwyrth o beth a gwerth y byd - moes hywerth
Maes awyr sy'n symud!
Mi wenwn pob un munud:
Hwra, i Braha mae'n bryd!!

Jako sen, "dobry den" se dál - 'Deme
Domů, valá Praha
A llais llawen Božena;
Rhedwn 'nol i'r radina!

Mawr o foi o *Morava* - rhen gweld gwawr
Gwladgarwch, 'rhen *Mucha*;
A gwylder *dnés i večera*:
Tir uwch *U Salvatora*.

Chwythell creu'r wedd gronllog - fel achos
Efelychiad aelog;
Adfeddallau ffrufiau'r ffôg,
Rhithiau awdr y rhaith wydrog.

Hinsawdd o hanes sydd yno, â rhin
Tiriondeb mewn chwildo;
Antur oes ger pob un tro:
Mústek a Staré Město.

Am eiliad, bywyd melwid - arswydor
Morsydn daeth newid
O'r hylon i'r profion prid;
Ceufa o'r enw COVID.

Hawlio creso rhag y cryd - daw y pump
'Da'u pwynt; rhaid dychwelyd!
A Duw, rol chwilio diwyd
Cânt orffen ar ben y byd!

Uniaethom gyda'u teithiau - tro aflan
Bygan twgyd bagiau;
A brad yr adenydd brau'n
Ffaelu hwpio eu fflapiau!

Caer awen y cread - golau dydd
A rhydd wyrth gwareiddiad;
Gwynt nerthol ysbyrdioliad
A chwys dirdynol iachad.

Dŵr gwyfarch, daear gofail, a helfil
Gwylltiffa'r hen fugail;
Cwrdd â natur teulu'r tail
Yn hafod yr anifail.

Dewis o amserlen trenau - clodwïw
Yw cludiant ein prydiau;
Peint yw'n cais â'r pwyntiau'n cau
Ynencil awdr y cledrau.

Clywed *tsîw-tsíw* a metzo -- deuauw
A-wy-wen a ní-no;
Y tric 'di canfod *trác-do*
A charlam y tram drwyr tro.

Gwyrth gwyyddor allwyro'r llu - neidio gwyllt,
Newid gwefr, pelydru
O fynwes dadelfenu
Ar faes cain gwyr Heyrovský.

Hin obeithiol y bwthyn - hin cariad
'Rol cyraedd pen tenyn;
Hin acen, iaith a genyn:
Hin y daith sy'n lloni dyn.

Eithriad, ai'r un hen gythrwu yn uw dwl
Sy'n dilyn hen batrwm
Y "teulu" er llygru'r llwm?
Ein gwarth, regina gorthrwu.

Cri cynen, distryw a gwendod - eithr pwn
Anthropoid creu dyddid
O ddifa'r udd, llywydd llid:
Hwn yw rhudd coeden ryddid.

Cariad oes, co' *radina* - daw yn dân
Adunol, fel ysfa;
Creu chwaneiglen heulwen ha'
Bo'r heol 'nol i Braha.

(1. Hedfan yn hwylys iawn o Fanceinion i Braha. Dim lle o gwbl i achwyn!
2. Y llinellau cyntaf mwy neu lai: "Fel breudddwyd, cawn ddeued "Dydd da" - 'da ni'n mynd adre', mae Praha'n galw. *Božena* yw enw mam J. Teulu yw *radina*.
3. Mynd i arddangosfa o waith Mucha, a darllen am y tro cyntaf am ei wladgarwch gynhwysol, ei weledigaeth am rhyddid y bobloedd Slovanaidd, a'i arteithio gan y Gestapo cyn ei farwolaeth. Ei eiriau olaf oedd: *Pokrok lidstva postupuje kikitau cestu, která stoupá a klesá - jako teplotní*)

Křivka. Stoupá a zase klesá - velmi hluboko. Ale z dlouhodobého hlediska přece jen stoupá. Ac wedyn i Eglwys Lwtheraidd Y Gwaredwr am gyngerdd organ, a'r geiriau *Ježíš Kristus, tentýž jest věra i dnes i na věky o'r* Hebreaidd ar y wal flaen, y tu cefn i ryw fath o bwlpud.

- Mynd i arddangosfa Martin Janecý, sy'n creu gwýr mewn gwýdr, a'i manylu o'r tu mewn i swigen wydr ("inside the bubble") yw'r ymadrodd technegol.
- Cerdedd o amgylch yr hen dref, â hanes ym mhobman.
- Babicka'n dal COVID a gorffod ynysu lan lofft.
- CHKTED yn cynllunio i aros mewn flat gwahanol oherwydd COVID.
- T&E yn gorffod ail-lanio ym Manceinion o achos nam ar yr awyren, cyn llwyddo i gyraedd; a bagiau KCh&D heb gyraedd o gwbl!
- Ail-ddarllen John Bowker am y drindod.
- Mynd fel criw i'r SW! Gwyfarch yw hippo(!), a gwylltifa yw sw!
- Mynd i gael cinio mewn rhyw fath o dafarn lle mae trenau bach yn cludo'r bwyd a'r diod a'r hyd y lle!
- Iaith D. yn datblygu!
- Enillodd Jaroslav Heyrovský Wobr Nobel am ei waith electrocemegol. Enwyd yr athrofa, lle bu Z. yn arwain am fynyddoedd ac yn ymchwilio i wrthdrwyddiadau rhyng-foleciaidd, ar ei ol.
- Treilio'r penwythnos yn y bwthyn yn S., a mynd am dro i weld bedd Z. yn y fynwent pob dydd.
- Diwrnod claddu brenhines Lloegr. Dynes digon ffenid siwr o fod, ond yn arwain, cynrychioli a chynnal sistem digon ffiaidd. Nid oes gobaith gwaredu Prydain o'i hanhegwch cymdeithasol tra bod y teulu brenhinol yn parhau.
- Mynd i weld cofeb cyrch "Anthropoid" pan laddwyd un o arweinwyr y Natsïaid, Reinhard Heydrich, gan filwyr Tsiecolofacidd yn ystod y gresgyniad Almeinig - a'r dial erchyll a fu fel canlyniad: laddwyd 5000 o bobl Tsiec, danfonwyd eraill i "gampiau angau", a dinstriwyd dau bentref yn llwyr heb unrhyw rheswm. Ond o achos Anthropoid, cyfaddefodd Prydain ac eraill bod cytuneb Miwnich wedi bod yn gamsyniad. Daw'r syniad o "goeden ryddid", a'r gwaeadau dywalltir drosto, o waith Thomas Jefferson.
- Y gwyliau'n dod i ben, a'r cynlluniau am y daith nesaf eisioes ar y gwyl!

Gwallia (20220908)

*My country is red,
Red, green and white;
My country is Cymru, she's my dynamite!
Through thick and thin,
Through day and night
She's beside me shining bright,
Red, green and white ...
Red, green and white ...*

(I alaw intrada *Scenes from an Italian Restaurant*, gan Billy Joel.)

Cawod (20220904)

Rhyfeddod o glywed y gwlaw mai hynod
Yw mana'r deheulaw
Dros y tir, ei'r aelaw
Newydd, a bedydd i'r baw.

(Cawod drom y bore 'ma ar ol y sychder.)

1-0 (20220903)

Sylwyd ar y bäs salw - a Cŷpyr
Yn ciplo yn hwnw!
Un eiliad i greu elw.
Derbyniodd, rhwydodd Plw!
)


(Joël Piroe yn derbyn pas Ollî Cooper i sgorio'r gôl enillodd y gêm heddiw; buddugoliaeth cyntaf y Swans gartref yn y tymor newydd.)

GeryCopa (20220903)

Goleudrem academiaeth yw anwes
Neges arbenigaeth;
Gwellianau mân mewn cân caeth:
Daeth her gwirio doethuriaeth.

(Darllen penodau doethuriaeth un o fyfyrwyr Caerhiffryn.)

Llanarthne (20220903)



Ffrind huan, dyffryn Tywi - eiliad haf
Middleton a'i lesni;
Gweled soned, clywed si
Tras ac urddas y gerddi.

(Yn y Gerddi Botaneg y penwythnos diwethaf.)

Mmmmm (20220828)

Llwyni'r mieri mawrion - gwyrt h o lys
Sawrus, melys aeron
Suddog fana'r heulfa hon:
Mor dew yw'r mwya duon!

(Llwythi o fwyar ar y mynydd y bore 'ma.)

BritniAcElton (20220828)

D'aberth, byw ar y dibyn a fagwyd
Yn Las Fegas wrthun;
Tor dy rhwym, cllia'th dwymyn,
Cei fy ngofal, Dal Fir'n Dynn.

(Anodd peidio teimlo dros Britni S ar gyhoeddi fersiwn newydd o "Hold me closer" da Elton J.)

YrArall (20220821)

Rho dy law'n fy llaw, daw deall - dysgwn
Gyd-egyn uwch anghal;
Coelia frawd, er gawwad, er gwall:
Yr her yw caru'r Arall.

(Ail-ddarllen llyfr John Bowker: "God: a very short introduction" sy'n plethu'r ddaol resymegol i wrthdoliaeth Duw yn gystal os nad yn well esboniad i'n bodolaeth ni ag unrhyw ddaol arall), a'r ddadl gymdeithasol-bron yn seilledig ar esblygiad moesoeldeb, tegwch a chydraddoldeb dros y canrifoedd. A meddwl o'r newydd am yr adnod "Câr yr Arglwydd dy Dduw âth holl galon ac âth holl enaid ac âth holl feddwl.")

E[YIP(X-x)=P] (20220820)

Haprwydd têr ym mâr y moroedd - hin awd
Cyfnodau a brigoedd;
Maths dwyllodrus, gwallow goedd
Gwarth cysylltiedig werthoedd.

(Gwneud prosiect ar rhagfyrnegi gwerth un newidyn (megis cyfnod ton) pan fo newidyn arall (megis maint y brig) yn eithafol, a'r atebion yn profi mor anodd yw'r dasg, a pha mor amheus yw rhai o'r amcangyfrifion a weir. Mae gan "hin" yr ystyr "fffin" neu "limit" fan hyn, ac "awd" yr ystyr "cân".)

Gwlaw? (20220818)

Crefu swn alaw'r gawod - adfywiau
Rhyw ddiuiau dros ddiwad:
Dwr i wella'r hen dralloed!
Eiliad o ddyfriad i ddiwad?

(Braidd dim gwlaw am oesoedd bellach; swm estron diferon ar do'r ty haul!)

CristionogaethDigrefydd

Duw ystyr yn y distaw berfeddion,
Awg estron ei gystraw;
Cof elwig y cyflawr
Yw'n byd, tyst o'r drud tu draw.

(Darllen am Bonhoeffer eto, y Cristion digrefydd: "Duw yw'r tu hwnt yng nghanol bywyd".)

Cyd-chwarae (20220813)

Twrw hectig y tractor yn gwr
Grym geiriau a gwyddor;
A doniau swn deinosor
Yw nod actif mab doctor.

(D. yn dechrau siarad a deall go iawn.)

Benllech (20220813)

Lle'r haf, twymaf y tymor - nefyn hin
Hafan hwy! ac angor;
Nawd o donau didior,
Llais y lli, miri glan môr.

(Yn y môr ym Menllech.)

YrHarddaf (20220807)

Rhyfeddod uwch rhosod yr ardd yw'r Un
A rana'n ddiwahardd,
A hanfod tyst yr henfardd
Mai Efe yw'r mwyaf hardd.

(Gweld y benll "Cof am y cyflawn Iesu" gan William Lewis Llangloffan ar gareg fedd yn Langwyfan.)

Neithiwr (20220807)

Swper â hin soprano seiniog lais
Yn y glas 'roi llwyddo;
Machlud llon a gwrion go'
Erys acw'n Broseco!

(Dathlu gyda L, A, M, J a T.)

Gweld (20220806)

Unig her y person call - gweld i'r byw:
Dyn ai Duw yw'n deall?
Meidrol gur ein gwyr eu gwall,
A'n gwir yw'r Unig Arall.

(Pryd o'r diwedd rŷn ni'n mynd i gallio?)

YrAnheilwng (20220805)

Er ein gwing, ysa ddringo - hen elyn
A'i etholaeth wallgo'n
Crefu malais, trais pob tro;
Onid hyll Tôri'n twyllo?

(Gwir nid yw Trŷs na Swnac yn deilwng o swydd gyhoeddus fel prifweinidog.)

LLL (20220804)

Elân fel Adelina, anel uwch
Ms Lan Lofft; twls goffa
I lais ein hanwy! Lisa
Peri hud â'i hopera.

(L yn enill cystadleuaeth Rhuban Glas Osborne Roberts.)

YBriwfyl (20220731)

Beth am ddileu cystadleuon? Daw'n hwy!,
Dwedwn i, wrth ddawnsio'n
Odlau lleisiau Rhuthun llon:
Lleisiau gorau Tregaron!


(Eisteddfod yn Nhregaron. Canu "Dirait on" (sef "Dwedwn i") o farddoniaeth Rilke, a "Fe gawn ddawnsio" i dŷn Eric Jones. Mae angen cael gwared â chystadlu'n gyfngwbl, a thro'i cyfan yn gyngerdd o safon.)

Anochel (20220728)


Brecsitaidd lid, COVID, cad - mae doethion
Cymdeithas yn dirnad
Yn awr, mai i lawr yr â'r wiad
I wisgo racs dirwasgiad.

(Dirwasgiad i'w weld yn anochel erbyn hyn, yn para i mewn i 2024 siwr o fod.)


Auchermuchty (20220719-23)



Bore haf, tywydd afian - yn hyfult
Drwy'r helbul i'r Alban;
Bwy'r dathl â'r byd ar dân:
Golwg mwyn o Gldmanan.



Rhinio swn y môr yn sail - rhanu hedd
Dwyrain Niw ag arail
Naddion brechdanau hyddail,
A hafn gychoed crancod Crail.



I encil Loch Ffascali - i Fwlan
Felys, ac i fyny;
Oedi'm Mhen Y Ffaci fry,
Tali yw achres Piltlochry.



Gollwng pac lawr yn Fâclan - bron hanes
Brenhinol tras Ninïan;
Os am arial bri'r Alban,
Tlyzni Gwâl Mispï 'di'r man.

No infant has the
power of deciding
at what period of time,
or in what part
of the world,
he shall come into
existence.
Robert Owen
(1771-1858)

Yn ol awn, hyd y lonydd - hel heol
Owen y sosialydd;
Cawn undod rhwng bod a budd
Yn awen Lanarc Newydd.

(Teithio i Ffeiff yn y gwres mawr. Mynd i "Crail", sef "caer y graig" neu debyg yn y Gymraeg - a chael "salad" a fachnatwyd fel "dail" gyda'n brechdanau i ginio. Wedyn mynd i Bitlochry, a cherdded i Ben Y Vrackie, ac i Fâclan (dall'gland, ger Auchtermuchty) a chwerdd llywybr Mispie Den. A galw yn Lanarc Newydd - lle bu Robert Owen yn weithgar - ar y ffordd adre.)

37:1C (20220718)

Rhyfedd dymheredd ar waith - cawn gallio
Cyn gollu pob gobaith?
Neges hyll yw tri-deg saith
Am hurtwch fflamiau artaith!

(Record i Gymru boeni amdano: tymheredd o 37.1C ym Mhenarlrag, y record blaenorol oedd 35.2C ym Mhenarlrag yn 1990. Torwyd yr hen record mewn sawl man ar hyd a lled Cymru heddiw hefyd.)

Gwrandd (20220717)

Addysg bardd, gardd i'w harddu - ond ornest
Yw diwrnod o balu!
Drud yw dweud y radio dau,
Araith a chân wrth chwyntu.

(Palu dros y penwythnos.)

YDoethion (20220717)

Newydd sbin, celwyddes Penny - i Truss
Tori treth sy'n glyddy;
A'r ddwy yn ish na Rishi,
O ddim gwerth, traferth yw'r lli!

(Distopia go iawn; "ish" yn nhabfoethiaeth Cwm Tawe.)

Duw? (20220717)

Gwan yw hedd gau weinyddiaeth - cysyniad
Aur eiliad reallaeth
Deall gair i gail, nid gwaeth
Bo wyneb hael unbenaeth.

(Am fydd!)

"AllanOReolaeth" (20220717)

Dyddiau hin diwedd hanes - a'i feddwon
Yn fyddar i neges
Odyn gryd o donau gwres
Er geni'r oes or-gauyes.

(Tymheredd afresymol i fod y penwythnos 'ma.)

Deall (20220817)

Deor ofn mewn dau neu dri mae cri'r oen
O boen a thrybini;
Bathu nef yw'n gobaith?
Yn nyndod gwaddod gweddi.

(Tybed caiff y ddynoliaeth ddeall, yn ddiwrndd? Neu, bwyrach bod 'na ddim byd i'w ddeall?)

32-29a12-13 (20220711)

Cêm un: dechrau slic try'n rhicoc - picil
Â'u pac yn creu hafboc!
Cêm dau: rho'i'ring i'r Sbringboc
Yn siwr, gan greu diawl o sioc!

(Siarad 'da JG drws nesa' heno am y rygbi. Cymru'n maeddu De Affrica yn Ne Affrica am y tro cyntaf erioed, yn yr ail brawf, ar ol dod mor agos yn y prawf cyntaf.)

GwaredDa (20220709)

Cwmp ddegwyddor Foris,
Gwas sor ag uchelgais is,
At gau-newyddu taflfyd dis - aflan,
Dieflig yw'r dewis.

(Diwedd y troli siopa, mwya neu lai gobethiol)

Llundain (20220709)

Ar y brig ym mhragdy'r brain - yn nhwrrw
Cwrw'r siwtiau cywrain;
Blas trallod dyn 'di Llundain,
Arogol troeth y coeth a'r cain.

(Yn Llundain am y tro cyntaf ers cyn COVID. Cyffro o fod yno, ond teimlad ar yr un pryd fod 'na rhywbeth mawr o'i le.)


Penfro (20220625-0703)

Dyrma wynfyd penyd per - gwyll unig
Llanaidd a bodlonder
Oedi'n syn o dan y ser,
Hwn yw nefoedd Nanhyfer.

Dilyn cyrion y lonydd, ciliau hedd
Y cloddiau, ar drywydd
Heol Trefaes Canol gudd
Ac oedi am gawodydd.

'Stormydd rhuog bu'n hogi hin y din
Denus uwch y weilgi;
Tonog gais trodd llais y lli'
Yn englyn i Garn Inglî.

Gwarchodol fyd crudd y Crwys - fel englyn
Rhauglun Cwm yr Eglwys;
Eiliad ar fin parawdys
Yw llwybr hoes ger y lli' bwyys.




Dyma'n craidd, nefolaidd fan - llanw, thrai,
Cofiai am y cyfan;
Ein hynt fel y gwynt yn gân
Ar wefus Pentre Ifan.



Os am drafael, gafaelog yw hwylo
Hyd hewlydd tra-throellog;
Cer i weld y troeon crog
O'r waun lawr i Langranog.




'Da'r rhiw, o nodau'r awel - ac wedyn
I'r goedwig yn dawel
I gyfarch y cymarch cel
A dreiddia i Dreyddel.




Ger y wig, orig aerwr, er garwed
Drwg oerwynt a'i fwstwr,
Gorau dydd sydd ger y dwr,
Cei wybod ym Mae Ceibwr.




Taith osgeiddig Y Rhigian
I'r lli', rheed yn glir a glân.




Dros ffriddiau 'da'r ffrydiau ffraeth,
Rhiniau'r haf draw yn Nhrefdraeth.




Rhyw afael, perthyn rhyfedd - natur uwch
Pant y Rhug, ymgeledd
Ac argyhoedd oesoedd hedd,
Arwybod Llech y Drybedd.




Twr y llofion Trelyffaint - caer amlin
Cromlech yn ei chyfaint;
Er gwanhau ei seiliau saint,
Digon i hon ei henaint



'Nawr i ledrieth morladron - tes awchus
Pontsychan a'i wymon;
Strwmbwl yn creu goleuon
I'r ddau gun, y dyn a'r don;



P'nawn i fwynhau llwybrau'r llyr - hyd wegil
Ceredigion ddifry,
Dilyn ol cefnforol fur
Ym Mwn't â blas am antur.



Cnawdol lith y cendelaethau - hafnau
Eu cofnod, twmpathau
Trig-olion, cylchoedd brywsion brau
Cor eigion Pen Y Crugiau.

Byd y morlo, Penfro per - rhod lliwiau'r
Dylluan, a gloywyder
Y saint, y llechi a'r ser,
A chlun nefyn Nanhyfer.

(Gwyliau mewn bwthyn rhwng Nanhyfer a Threwyddel.)

Heulwen!
(20220621)

Heddi', fe ddaeth noethni'n nes - tro hapus
I strwpo'n yr heuldes
Ceinaf a'i anog cyne;
Gymro, rho groeso i'r gwres!


(Mynd i redeg yn y gwres amser cinio!)

Gwedd!
(20220620)

O wenddi ei ofidion - hel hunan
Oleuni mae'r ffyddlon;
Canu'i boen i'r Oen a'r Ion
A mynu pethau mawrion.

(B. yn sôn am weddio dros bethau mawr 'ddoe.)

Y TaweA'rTwrch
(20220619)



Hynod lan â blas adloniad - a rhin
Fel gwinn yn watganiad
Aber gloywder, canu gwlad
Awdlau efail cydlifiad.

(Eistedd echnos ger cydlifiad y Tawe a'r Twrch yn bwyta tsips. Nefoedd.)

SecsEdiwesiyn
(20220618)

Darlun llymyn, gwers a llyw, etyb ofn
Tabŵ, fel drych ydyw
I boenau dyn a benyw
O ddiosg rhith addysg rhyw.

(Gorffen gwyllo'r gyfres ar Netflix. Cymaint o negeseuon dwys, a hwyl, ag actorion ifainc gwych! A Gillian Anderson!)

Moes
(20220618)

Ildio i anghydraddoldeb yw bai
Pob un mewn fodlondeb;
Uwch rhu'n hoes, baich yw i'r neb
Ceisiai undod, cysondeb.

(Darllen am Ceidt a'r llywodraeth ddigywilydd yn Llundain.)

Gras
(20320617)

Gras yw dawn goroesi dydd, heb enyd
I boeni am drywydd;
Nefoedd o gadw'n ufudd
Ar y daith rhwng ffaith a ffydd.

(Ffordd yn y byd maen bosib bod miliynau yn byw mewn heddwch drwy'r byd, er gwaethaf y newyddion dyddiol diflas.)

Hiraeth
(20220608)

Ymdrech ddyfal cynal coed
Anghynges anwes henoed
O gyfarch llu atgoffon
Dwy law'n dal, a'r chwedlau'n don.

Rhanu sawr o'r un seren
Hwsaid, dau braidd o'r hen bren;
Disgleirdeb puwr llwyr lleud,
A breuddwydion meillion mad.

Ein hynodiath yn nodrefn
A grwnach dwy gilfach gefn;
Tiriondeb, undeb drwy iaith,
Nerth ac aberth, a gobaiith.

Er cnawd, er ffawd a ffwadan,
Mae'n fwyn mewn mwy nag un man.

(Gadael tŷ B. ym Mhrraha am y bwthyn, a theimlo hiraeth.)

211-148
(20220607)

Blin pob Tôri'n moelyd dis - yn dial
Yn dawel a'i ddeuwis;
Lygredig rheithgor Boris
Degoes, ni chwymp moes dim is.

(Y celwyddwr BJ yn enill pleidlais o ddifffyg hyder, a cholli ei blaidd ar yr un pryd.)

1-0
(20220607)

'Nawr curo ofn, herio cryd - herio criw'r
Wcrain, cewri'r ysbwyd;
Dal yn dynn, naw deg munud
I wŷr y bêl guro'r byd.

(Cymrn'n maeddu'r Wcrain, er gwaethaf y teimladau cymysg.)

Kozi Hrádek
(20220606)

Awydd am y crefydd craidd - a ffynon
Ton cyn-Brotstanaidd;
Unol brawf gwerinol braidd
Goruchaf foes, oes Hwsaid

(Ymweld ag un o gadarnleoedd Jan Hus a'i ddilynwyr tua 1400.)

Výlet
(20220604-05)

Ein gorchwyl mynd i gyrchu - hoen 'di cân
Llund car yn parhblu
Hoff gecâni cwmini cu,
Awchwn am Jižní Čechy.

Â chynau hwyl ym *Mechyně*, rhodio'i
Gozi Hrádek, sívrne
Is tyrau *Konopište*,
'Da *Sárka* â *Libuše*.

(Ym *Mechyně* gyda A, B, E a J. Bwyd ar y ffordd yn *Nhàbor*. Ymweld â theulu Kva. (J, J a P) yn gyntaf, wedyn â theulu Kal. (J, L, P, P, R, R). Bwyta gormod! Cysgu'r nos ger *Tàbor*, wedyn ymweld â *Kozi Hrádek*, *Milevsko* a *Konopište* cyn troi am adre. Dwy ddynes ddychmygol yn hanes sefydlu'r genedi *Tšiec* oedd *Sárka* a *Libuše* - mae cerfluniau ohonynt yng ngerdded *Vyšehrad*. Wedi treiglo geiriiau *Tšieceg* eto; mae'n teimlo'n fwyr naturiol!)

ProdanáNevěsta
(20220603)

Jeník â nod: priodi - ac atsain
'Rhen *Cecak* yn corddi;
Newydd nydd a'n drysodd ni:
Un forwyn, ond dwy Fari!!

(Mynd i weld cynhyrchiad newydd o *Prodaná Nevěsta* (y forwyn briodas a werthwyd, gan *Smetana*) neithiwr, yn y *Národní Divadlo* (y Theatr Genedlaethol). Mae'r dehongliad wedi corddi'r dyfroedd yn *Mhrraha* - rhai yn bwian, eraill yn boeddio *Bravo!* Andros o hwy!! *Jeník* sy'n priodi *Maruška* (sef Mari i'r Cymry). *Kecak* (y treillydd priodasu, a'r gair *Kecak* yn meddwl "dyn sy'n malu awywr" yn *Tšieceg*, ynghenir fel "Cetsac" yn y *Cymraeg*) sydd fod i drefnu popeth. Ond yn cynhyrchiad newydd, mae "na ddwy Fari, a sawl cymhlethod arall!!!)

Prátelství
(20220603)

Tonnau hiraeth, tynerwch am herio
Vladimír ag afwch
Croeso o dro i dro'n drwch:
Teg erwau letygarwch.

(Y weriniaeth wedi croesawri dros 350 mil o boblogaeth Wcráin ers ddechrau'r rhyfel. Ymweld â pharc *Prátelství* (brawdgarwch) rhwng *Střížkov* a *Prosek* yddoe; hyfryd.)

Běhání
(20220601)

Bore glân, af amdani - arlwy haul,
Awy'r las yn gwmni;
Nodaf wenua *Podvíní*
O fryn hen *Prosek* â'i fri.

Yn y man, *Vysočany* - yn ebrwydd
Hyd lwybrau u *dráhy*;
Ond yn ol rhaid anelu,
I fron clogwyn *Prosek* fry.

(Rhedeg o *Střížkov* i lawr y bryn i *Vysočany* ger llwybr y *bobslei*, a'r hyd *Park Podvíní* ac yn ol droi yn hen *Střížkov*.)

VeMěstě
(20220531)

Procházet unwaith eto - crwydro craidd
Euraidd *Pražské jaro*;
Dylad treftad ar bob tro
I'r most o *Staré Město*.

(Cerdded yddoe gydag El. a J, am goffi a theisen yng nghaffi *Světozor!* Ystyr *procházet* yw "mynd am dro", *Pražské jaro* yw "Gwanwyn Praha", y most yw "pont", sef *Pont Siôr*, a *Staré Město* yw'r "hen dref".)

JeštědJednou
(20220530)

Ail-godi mae bri hen Braha'n rhodwydd
I'w rhedeg yng nghyngan.
Rhythmau ac odiau'r goedllan
Glyd, ym myd yr adar mân.

(Diwrnod cyntaf ym *Mhrraha*. Mynd i redeg o glych coedllanau hen *Střížkov*, â'r adar yn eu hwylliau.)

Cestování
(20220529)

Eto i bau'r *autobahn* - o yru
Dros Ewrop yn gyfan,
Hynod aes cysgod *jasan*,
Eli oes yw'n *Skriván* lân.

(Mynd i'r maes awywr Manceinion erbyn 9.30yb dydd lafi. Mynd drwy'r ciwiau i grad. Bron â mynd i mewn i'r awyren, ag *EasyJet* yn canŵlo popeth oherwydd rhyw "system crafod". Aros am oesoedd i gael mynd nol drwy "passport control", a nol bagiau. Wedyn T yn dod i fynd â ni adref. Cyraedd gartref am 6yh. Ag anogaeth T a K, bwcio Eurotunnel, trefnu yswiriant ayyb â llwyth o help gan T ac E. Gadael Rhuthun 9yh. Yn yr hotel ger Ffolkstone am 1.30yb dydd Gwener. Codi am 6yb, dal tren 7.20yb. Gyru drwy'r dydd drwy Ffrainc, Belg a'r Almaen i'r Weriniaeth *Tšiec*. Cyraedd y Weriniaeth am 7.30yh, a'r bwthyn yn *Skriván* am 9.15yh!! Roedd wirioneddol yn hwyl.)

Gregynog
(20220527)

Araith ar daith dwy-ieithog hyd lwybrau
Yr doeau blodeuog
I ardd Gwallia, gyda'r gog,
I ganu yng Ngregynog.

(Rhoi sgwrs yn y Cymraeg a'r Saesneg yng Ngregynog dydd Mawrth ar eithafon a synhwyro o bell.)

Melyn
(20220522)

Enyd aur yng nghalon dyn rhydd heulwen
Ar ddolydd y dyffryn;
Ar goedd mae'r miloedd melyn
Godidog, llathrog eu llun.

(Blodau meny'n yn eu hanterth.)

YDrindod

(20220514-19)

Amaw tyrau'r materol - gweld mai doeth
Rhin noeth yr haniaethol
A nawdd heulwen meddyliol:
Byw i'r crawd yw ffawd y ffol.

Ffydd i'r gwyddonydd sydd anos - edwaeth,
Rhyw hiraeth sy'n aros
Am eioes, oed "oes" nid "os"
Gan hel egin y logos.

(Roger Penrose yn siarad am y tair gyfrinach fawr. Paham mae'r byd ffisegol, ein "bod" meddyliol, a chysondeb mathemateg "haniaethol" yn bosib, ac yn cyd-dynnu? Mae'n weddol amlwg na fyddwn fyth â'r gallu i ateb y cwestiynau yma.)

BoreSadwrn

(20220514)

Af i weld y byd fy hun - oed elan,
Hydd lonydd y dyffryn;
Ar pen talth, cywaith y cun:
Am hoen o fiodau meny!

(Yr amser hyny o'r flwyddyn eto.)

Campws

(20220511)

Gwawl hud yr addysg wledig - dyma goed
Dail oed oleuedig;
Crwydro parth rhwng garth a gwig:
Saib i olrhain cwys Bailrigg.

(Yng Nghaerhifryn unwaith eto. Cysgu ar y campws y tro'ma.)

YrHenDroseddwrHy'

(20220508)

Crwifafiach, siabach ei sieu - criw diefflig,
Aniddig, staen hyddew;
Gau eglur ym rhob gwagle ...
'Wyn donto lladd dant y llew!

(Tynu DYLI yn GG y penwythnos diwetha,' da K y penwythnos cynt, ac yn Rh y penwythnos hwn!)
Digon yw digon!)

YDwr

(20220507)

Dyma afon, ffrwd myfyr - hafod nwyd
Llif adnodau'r Llyfyr
A gylch adfydd, penyd pur
I'r rhai a geisia'i gysur.

("Y mae afon ...", a meddwl am gyfarfod ymddiriedolwyr y capel nos Fercher. Ofni am y dyfodol, ond gweld ar yr un pryd law dim ond un fordd erys yn y pen draw)

YC

(20220502)



Rhedeg, rhedeg er oedi, celu her
Cael arwydd i gochi;
'Rol hoe, cymaint yw braint, bri
Stoc arall o sticeri!

(Gallwch ddechymygu!)

Pizza

(20220502)

Llon yw noson "lemonade" - da brofiad,
O brydyn, am "bwffet" - ;
Ond doeth cwtogi'r moeth, "mate";
Tala'r pris, dewis "diet"!

(Lawr yn GG gyda T., yfed peint a bwyta pizza maint rowndybowt, wedi stwffo!)

YGalon

(20220501)

Y gwir unig eli'r galon, o waith
Fel o faeth yn gyson;
Bodliad cariad yn curu'o'n
Freisglan, yr hunan yw hon.

(B. yn sôn am "galon" ffisegol a'r galon "metaffisegol" heddi!)

YCnel

(20220501)



Heno, mudwn i'r awel - awn i bau
Ein doeau, sain dawel
Hygluar, ffrwd argae'r dirgel:
Sawr rhiniog nos yr hen gnel.

(Mynd ar y beic o'r Gnoi i ben arall Pontardawe ar hyd yr hen gamlas; mae modd cyrraedd Ynystawe erbyn hyn. Nefoedd.)

YGwanwyn

(20200430)

Un Eden, â'i helfen hardd - pob syndod
Rhydd hanfod yr Henfardd;
A thro'r rhod, nod hin atardd:
Lle'n dyrffedd rhyfedd yw'r ardd.

(Cweithio yn yr ardd yn GG, y tywydd yn fenedigidig a'r adar fel bacinrac.)

MeiFfrendRob


(20220429)

Sail ffars chwarae sellöffän - cynwrf pur
Gwŷr yn gwneud stwff gwirion;
Twm yn cocsiu taro tön
I'r ddeuawd 'da'r brawd Brydon!

(T. yn cael ei wahodd i'r llwyfan gan y bonheddw'r Brydon ym Mhafiliwn YRHyl nos Fercher! Ddolch i R. a L. am y tocynnau!)

CarneddYFiliast

(20220424)



Siwrnai awengar f'arfedd - unig gam
O Flaen y Cwm, erwedd
O ryddhad, am wlad, am wledd
Uwchben gwernen i'r garnedd.

(Parcio ger fferm Blaen y Cwm, nepelli o Gwmpenaner, a cherdded i Garnedd y Filiast.)

DifodiantHipo!

(20220422)

A-men 'nawr lle bu mwynhau ag hipo'n
"Caput" yn ei ddarnau;
Dros y ffens i dras y ffau
Gwel eigion o benglogau.

(Yr anifeiliaid yn Sŵ A. bellach fel "tröffis" rhyw heliwr wedi bod yn Affrica: penglogau'n hongian o'r sied!)

YTrydyddDydd


(20220417)

Coeliar ras gŵr Calfari, ond caled
Coelio'i atgyfodi;
Er hyn, fe sy'n gwirion!
Mae yn fyw, mae yn fï.

(B. yn trafod ystyr a dehongliad y Pasg.)

CyfrifBendithion

(20220416)



Argae'r rhod ar fore cwrs yw eli
Gwên heulwen o'n cwmpas;
Erwau gwyrddion rhag urddas;
Ariwyr hoff o awyr las.

(Mynd i Langwyfan ar y beic.)

YFford

(20220416)

Edrych am well na bydraith! Ffordd Postol,
Min heol anhywaith;
Â gafael hoen ogof laith
Wynneb pob anobaith.

(Meddwl am y Pasg, a geiriau'r Datguddiad: "Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo; os clyw rhywun fy llais ac agor y drws, dof i mewn ato, a bydd y ddau ohonom yn cydfwytta gyda'n gilydd." Mae ystyr "llaith" hefyd yn cynwys "marwolaeth" neu "difodiant".)

DynDa

(20220415)

Trwy ei weithiau yn trwytha - â geiriau
A doniau'n y dena,
Yn dirion fe'n deora:
Cans cyfoeth dyn doeth dyn da.

(Meddwl am y Pasg.)

Diawles

(20220415)

Cythrel yw'r Patel tila - hynod dwp,
Patel myn ddefetha;
Trais rhoi gŵr heb lais a'i "bla"
Yn ei wendid i Rwanda.

(Polisi'r "llywodraeth" Brydeinig ar "alforio" y broblem mewnfudwyr yn hollol ffaidd.)

EdrychLan?

(20220414)

Oenig wrth odre'r mynydd yw y gwas
A geisia arweinydd,
Un â dawn i gario'r dydd:
Ac anfad, gwalch a genfydd!

(Arweinyddiaeth warthus yn Llundain; gair "genfydd" i ddanfoni fforduriaid i Rwanda yn hollol affwag ac anfoesol. Liz SR yn defnyddio'r gair "genfydd" mewn twtit yn cyfeirio at ffyliaid hollol affwag o anfoesol. Liz SR yn defnyddio'r gair "genfydd" mewn twtit yn cyfeirio at ffyliaid hollol affwag o anfoesol.)

YrArglwyddYwFyMugail

(20200411)

Dychan rhyw bagan yw'r bugail - creu drys,
Cryd rheswm ei gysail;
Nefoedd yr uwch-anifail
O wiriondeb heb ei ail!

(Meddwl am y meddwl am y gwylwdd ym Mhendref yn ystod y gyngeredd - wych! - nos Sadwrn. A meddwl am y snyiad mai rhyw efelychiad cyfrifiadurol yw "bywyd" i gyd.)

YDarlun

(20220409)

Nadir hil, hil meidrol yn - nod dynsawd,
Dawnsio ar y dibyn;
Yng ngŵydd yr ansicrwydd syn,
Ein harf yw dwy law'n erfyn.

(Canu trefniant newydd o'R Darlun yn y côr nos lau.)

Dihareb

(20220409)

O bwys taer yw pob stori - rhagluniaeth
Rhad lonydd anialdir;
A'r geiriau sy'n rhagori?
Rhaearau'r co, gwario'r gwir.

(Rhori sgwrs ymhen pythefnos, eto ar bwera geiriau.)

YOH

(20220406)

Clydfan ac encil adfyd - er y gwad
A'r gwawdio alarllwyd,
Er argoel ac oer ergyd,
Y mae hon yma o hyd.

(Alaw a geiriau "Yma o hyd" yn styc yn y pen ar ol i Dafydd Iwan ganu ar ddechrau gêm Cymru'n ddiweddar.)

Ie!


(20220404)

Creu trwr mae'r hwntw, hwr! A'i nod
Llawyn gwera: creu bore
Coch, â'r gwario'n lliwio'r lle,
Gwawrdydd awydd dros lle!

(Mwy o sticys YesCymru yn Ystalyfera na Rhuthun ar hyn o bryd, ddywetswn i.)

CaregCenen

(20200403)



Hanes ein hil is y nen - rhyddid tro
Hyd ffordd Trap fel colfen;
Pen draw'r stryd i'r byd uwchben,
Orig gain Careg Cenen.

(Mynd 'da J. i Careg Cenen. Troi tuagat Trap yng Ngatlanau, a wedyn troi eto tuagat Capel Gwynfe. Cerdded heibio Llygad Lluchwr, lan at y castellan a nol drwy fferm Brondai, â'r carneddau yn y pellter ar ben y Mynydd Du.)

Syched

(20220402)

O ddilyn y glyn a'r gais a'i lonydd,
Cyflawnwn ein bwrffais;
Cawn y dre'n llawen ei llais:
Awenlyd Ystradgynlais.

(Cerdded 'da J. i Dafarn Y Gough am disglod o goffi!)

OBenderyn

(20220402)

Gwin ei heli'n reitwala - nef wyllt
Crud y Felle'n fana,
A glyniau hon a'n glanha
Â dwr i'r Sgwrd yr Eira.

(J a fina'n cerdded o Benderyn i Sgwrd yr Eira, croesi'r afon i Sgwrd y Paniwr, Clungwyn Isaf a Chlungwyn, a nol eto, a chael pítsa tu fa's ar bwys y Llew Coch wedyn! Nefoedd.)

Gwlith!

(20220331)

Gwyn fel rhow ar y blew blith - yn fore
Diferog ei fendith;
Dôl lwyd rhyniog o ledrith
Arianog reddf rhin y gwllith.

(Tywydd rhyfedd - gwllith yn gynt yn yr wythnos, ac eira bellach!)

BandYGwter

(20120328)

Anurdd ein ffyrdd yw'r affêr - glanhawr
Glan heol sy'n adfer;
Halibaw'r twrw ter,
Undeg wyt, band y gwter.

("Band Y Gwter" oedd yr ymadrodd gartref am y lori glanhau / brwsio heolydd. Un ohonynt wrthi ger Scott House y bore 'ma!)

NoslauDiwethaf

(20220327)

Sgiliau gwyrthiol ffwfbol dyn ffel - cic rhydd,
Cic crwm teg ei anel;
A'i gennod am y gornel,
Cymro di-droi, boi 'di Bêl!

(Cerdded cylch Ledibagys yn ôl taith R&L, gyda JKaD. Tywydd bendigidig, a fina'n cario D ar fy nghefn yr holl ffordd.)

Teulu

(29229319)

Amhrisiadwy nerth perthyn - câr hynod,
Diamod pob dymun;
Heulog wên fy nheulu gwyn
Fel gras o flagur rhosyn.

(Disgwyl mla'n i K. ddod am y penwythnos.)

Marwhad

(20220314)

Aer a thrais fel wyrld-wor-thri dwrugar
Â'r llesgar yn llosgi;
Lladd gwlad mewn cad er codi
Llen haearn, m'y'n uffarn i!

(Hanes yr Wcrain yn gwaethygu.)

Rhyfel

(20220314)

Troi y pethau gorau'n gur - daw gafael
Digofaint yng ngwerywr
Dyddiau gwarth gweithredoedd gwŷr
Â'u bryd ar fwrddo'u brodyr.

(Hanes yr Wcrain yn dorcalonus. B. yn darllen Salm 46 'ddoe.)

YStydi

(20220314)

Hylw pob drws a dolon - bonws haedd
Pob un silff 'roi gorffenn;
Gwili eilliad pob asgellen,
Gwerth y byd yw pryd y pren.

(Gwneud cyppyrdau a silffoedd ym M. gyda T. y penwythnos cyn diwethaf, ond wedi bod yn araf deg wrth englyna amdano!)

YnYGwyl

(20220313)

Mae heno gras amynedd, naws y nos,
Hanesog fodlonedd;
Naws a-men 'nawr, cans mewn hedd
Daw deall hud y diwedd.

(Meddwl am yr Wcrain, a theimlo'n hen.)

YBerth

(20220313)

Dewis tacluso'r diserth - O ofid!
Â'r tyfiant mewn trafferth;
Difyr yw pos adfer perth,
Nwyf troi'r llanast yn hyferth!

(Lawr yn GG gyda T. yn cymon'i'r berth cyn y tyfiant newydd.)

ErCof

(20220307)

Croes er osgoi necrosis - unigrwy
Ffordd mab Duw yw dewis
Ar y pren i dalu'r pris
Am naws ein hanamensis.

(B. yn sôn am y swper olaf a'i oblygiadau.)

Paham?

(20220220-20220306)

I fwg o "ddiarfogi" - eiliad maedd
Vladimir, halogi;
Greddf anwraidd Rwsiaidd rhi:
Hawl "digenedlaethol".

Tanau hoen Putin anwar yn creu ofn
Drwy'r Wcrain, a galar,
Diafol diedifar
Â'i wanc lwfr niwclear.

Pa fodd mae dyn yn goddef afraadaeth
Ei frodyr yn dioddef
O gynllun magu hunllef
Oed anffawd aerdrawd Kiev?

Atsain drwy'r Wcrain fel cryd - heb amod
Mae'r bormiau'n lladd ysbryd
Â'u dicter, gwae pob ergyd
Gwallgo'n bwyo rhyfel byd.

Gwybod
(20220228)

Gwynfyd yw bywyd dros bedd - nawdd ein ffydd
Coello dros tan y diwedd;
Coelio ginosco yw'n hedd,
Gair anwylein gwirionedd.

(B. yn sôn am Iloan a "gwybod" ddoe.)

O'nCoed
(20220224)

Dyma arswyd amhersain - cri acw'r
Crawcio'n diasbedain;
Rhanog ôl derwen gelain;
Anedd brid senedd y brain.

(Derwen yn farw ar y ddôl; meddwl am yr Wcrain, a covid, geiriau gwag gwleidyddion, a henaint.)

YBregeth
(20220222)

Ni wnawn ffoi o wenwyn ffawd - crwydro'r nudd
Pob dydd yw'n diweddawd
Yn feddw digyfaddawd
Dan yr haul, pob dyn a'i rhawd.


(B. yn sôn am Lyfr Y Pregethwr P9 ddydd Sul.)

Geiriau
(20220220)

Rhai creulon, calon yn cau - rhai chwewr'n
Carcharu'r synhwyrau;
Dwyn o ras i dynu'r iau:
Peryg oer pŵer geiriau.

(Paratoi sgwrs ar bŵer geiriau.)

YDeri'nYmdaraw
(20220218)



Gan ffiseg rad daeth tafliaid dis - twrw
Ystorum bu'r dewis;
Su hen wynt, tro'r pwysau'n is
A hyrddod hynod Eunice!

Sarug ael banau Sir Gâr - anedd daer
Mynydd Du yn gymar;
Cri'r pellteroedd, bloedd o bla
Rhin tonau'r corwynt anwar.

Anial oer i'n chwythu'n lân yw'r rhewynt
S yn rhoi ym mhobman!
Dwyawr hudol heb drydan
Yn y tŷ o flaen y tân!

Eryd machlud yw crud creider - o hynt
Y gwynoedd, addfwynnder;
Golau i bau di-bŵer,
Dyma nos arian 'da'r sêr.

(Gwynnt mawr yn GC. Gweithio tan i'r trydan ddiffodd, wedyn mynd am dro, a threilio'r nos wrth y tân, a gweld y sêr drwy ffenest y parlwr.)

BanCyhirych
(20220217)

Mynd adre'n awr yw'm chwenych - bri enaid
Yw y bryniau mynych;
Unwaith eto'r gwawrio gwych
O gyraedd Ban Cyhirych.

(Cyrru heibio'r Fan ar y ffordd drwy ben Cwm Tawe.)

UnOed
(20220214)

Mae'n ddiwrnod plentyn gwyn â'i gân - un bloedd
O ben blwydd i'r eirian;
Achlysur difyr Dyfan
Ryddd lawenydd ar wahân!

(Penblwydd cyntaf D.)

GwlawMân
(20220211)

Egwyl o hud cyddwysiad glân yw'r niwl
Rhana'i eili diddan
Cyda'r nos, neithdar arian
O gwllwm oer y gwlaw mân.

(Gwlaw mân yn drwm heno, Tywydd Cwm Tawe.)

Coed
(20220210)

Eglwys a goellia'r rhaglen - haul unig
A'i dragwyddol fvrriad;
Efydd llonydd dan ei llen,
Nawydd euraidd gangau'r dderwen.

(Eistedd o dan y dderwen ger yr hen gae peldroed ar y ddôl.)

Lleisiau'rNos
(20220210)

Cyrol hynafol yw'r nen - oes arian
Pob seren i'w darllen;
Deall deud y lleuad wen
Ar wib rhydd llais i'r wybren.

(Gorwedd yn y gwely yng ngolau'r lleuad.)

DeledDyDeyrnas
(20220206)

Mynydd baich wrth Edmund bach â'i oslef
Gwnaeth Aslan, bu glanach?
Llwrw'r lŵr i'r Llew a'r wrach:
Gwefru hoen y gyfrinach!

(B. yn sôn am C.S.Lewis y bore 'ma.)

YrAtgyd
(20200204)

Nid oes amau cydsymud ôl agwyr
Esblygiad ddychrynlydd
Lwybreiddiaid! Datrysiad drud
Yn gytgordd gydag atgyd!

(Ceisio canfod ffynhonnell Gronynnau'n ymledu ar y gwynt â hafaliad differol a datrysiad atgyd (adjoint)).

CoedYCreunant
(20220129)

Rhim o bin o drum i bant - euocter
A duder diwydiant;
Tawel foes Hywel â'r sant:
Cwr hanes Coed Y Creunant.

(Mynd i gerdded gyda S.)

PenYDaren
(20220128)

Am mae hawdd peidio meddwl - hen gyfaill
S yn gofyn am drwbwl:
Ar ben ei hun, un dyn dwl
Yn camu lan drwy'r cwmmwl!

(Ar ben mynydd â gweld braidd dim.)

Hoe
(20220123)

Ceinaf yw trwsio cynor - cael rhanu
Coel yr enaid agor;
Eli gweddi a gwyrddor
Rhydd dros y meysydd i'r môr.

(Ym M. am y penwythnos, a meddwl wrth drwsio pren yn yr ardd, a'r môr yn y cefndir.)

Lleu
(20220118)

Ysbrydoledig fendigiad ar goedd
A'i dragwyddol fvrriad;
Â'ysol lwydd dros y wlad,
Prydydd, llywydd yw'r lleuad.

(Lleuad llawn hyfryd.)

YPregethwr
(20220117)

O fyw panic daw dicter - drwy dy waith
Daw hirdaith â'r dewrder
I fyw'r godidocaf her
Yn ufudd os yn ofer.

(Gwyllo hanes Huw Edwards yn 60, ac yntau'n sôn am lyfr y Pregethwr.)

Lliw
(20220116)

Enfys o farian gydranau - ceidwad
Cyhoeddus deganau;
Cynig i'n hoenig fwynhau
Gwaith celfydd llywydd lliwiau.

(T. yn creu ar gyfer D. yn y gareji!)

Aur
(20220114)



Rhyfedd bu'r machlud heddi' - fel cyffur
Â'r awyr yn rhewi;
Eiliad melyn brofiad, sbri'r
Aur Aran ac Eryri.

(Machlud a gwrthdroad anhygoel eto heno. Eryn, Carnedd Y Filiast, Yr Arenig, Cadair Idris a'r Aran mewn aur.)

Niemöller
(20220109)

Daethant yn gyntaf am y Comiwnyddion;
Dywedais mo'r un gair
Am nad oeddwn yn Gomniwnydd.
Daethant wedyn am y Sosialwyr;
Dywedais mo'r un gair
Am nad oeddwn yn Sosialydd.

Daethant wedyn am y undebwyr llafur;
Dywedais mo'r un gair
Am nad oeddwn yn undebwr.
Daethant wedyn am yr Iddewon;
Dywedais mo'r un gair
Am nad oeddwn yn Iddew.

Yna daethant amdanaf i,
Ac nid oedd neb ar ôl i siarad drosof.

(Trosiad o "Daethant yn gyntaf" gan Martin Niemöller, am greulondeb y Natsiaid, a gormes yn gyffredinol.)

Maddau
(20220108)

Hoffus sail metamorffis - Arall
Yw'n deall a'n dewis:
Awn o brawf, a thalu'i bris
A phwyswn ar affesis.

(B. yn sôn am rym maddeuant y bore 'ma.)

TrumNantFach
(20220105)



Lledu mae'r colli hyder o gyraedd
Ag eira'n y pellter;
Ond i'r ffol mae nwydau'r ffer,
Hwn yw hin Cwmpenaner.

(Parcio yng Nghwmpenaner wrth yr hen ysgol, cerdded drwy fferm Nant Fach lan i'r Drum. Golygfeydd bendigedig. Y bwriad oedd cyraedd Garnedd Y Filiast, ond gormod o eira. Cyngor y ffermwyr oedd dechrau o fferm Blaen-Y-Cwm y tro nesaf, i osgoi gwaethaf y crug trwchus a'r coryydd.)

Myfyr
(20220104)

Nef yw oriau cyfaredd - dyma siol,
Dyma gol ymgeledd;
Taren Cwm Alwen a hedd
Lle uwch, Hafodty Llechwedd.

(Cerdded yddoe o Lanfihangel Glyn Myfyr i Bentre Llyn Cymer ar hyd yr afon Alwen, a dychwelyd dros y mynydd, heibio i HLL.)

Cefni
(20220104)

Hin y cyser yn cosi - a chwythad
Gwaith taeniad y toni
Bywiog, llachrog wyneb lli'r
Lle unig, hafn, Llyn Cefni.

(Cerdded 'da J, K a D o gylch Llyn Cefni heddiw.)

"Animal"
(20220103)

Ar allor dan y gorail mae epil
Y Muppets yn adail:
Darlun hurryn heb ei ail,
Yw'r nefryn i'r anifail.

(Peswch drwy'r nos a chysgu yng ngwely bach T., a phoster anferth o'r dyn ei hun yn edrych i lawr arna i.)

CerlDerfynauDyHiraeth
(20220102)

Sieryd Duw â phob un ohonom wrth offren ein creu, a chyd-gerdda'n dal â ni allan o'r nos.
Dyma'r sibrydion y clywn:
Tydi, anfonwyd allan y tu hwnt i'th gof, cer i derfynau dy hiraeth. Ymgorffora fi. Enyna fel fflam, â chysgodion mawr y caf symud ynddynt.

Gad i bopeth ddigwydd i ti: prydfferthwch ac arswyd. Dalia ati. Nid oes teimlad sy'n derfynol. Paid â gadael i'th hun fy nghollid.
Gerllaw mae'r wlad a elwir bywyd. Adweini hi wrth ei difrifoldeb.
Rho im' dy law.

(Rainer Maria Rilke, Llyfr Oriau, l.59. Cyfieithwyd o'r cyfieithiad Saesneg gan Joanna Macy.)

Calan
(20220102)

Modd heulwen i'n meddyliau - ac heulwen
Calan i'n calonau;
Awyr clir y gwir o'r gau
Ym moliant di-gymylau.

(B. yn dyfynu Nantlais "di-gymylau" a meddwl.)

NosGalan
(20220101)

Teced rhagdybiaeth fedrus - her adio
Amrediad gofalus;
Odnwydd newid blwydd yw'n blys
Hyd oriau hwy! "Hyderus"!

(Aros tan haner nos yn chwarae "Hyderus", sy'n wych!)